**Y CYNGOR**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.15 ar 26 TACHWEDD 2021, trwy Zoom.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Ms Kate Eden; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA [o gofnod 21.6]; Yr Athro Simon Green; Ms Sharron Lusher; Dr Louise Marshall; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAber; Ms Rhuanedd Richards; Ms Fiona Sharp; Ms Kath Williams; Dr William Williams [o gofnod 21.10]; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Am eitem 27 Rhodri Llwyd Mogan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol a Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect Yr Hen Goleg.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mr Owen Evans a Mr Mark Tweed.

**15. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. John Savidge, Botaneg/Microbioleg 1960 tan 2000;
   2. Peter Kingswood, Yr Adran Gerdd 1962 tan 1984; a
   3. Mrs Sandra Gornall, Dysgu Gydol Oes.

2. Sesiwn wybodaeth anffurfiol

   Cyn y cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn wybodaeth anffurfiol i aelodau'r Cyngor. Arweiniwyd y sesiwn gan yr Athro Colin McInnes ynglŷn â’r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r Strategaeth Ymchwil. Byddai copi o'r cyflwyniad yn cael ei roi ar SharePoint a byddai recordiad yn cael ei ddosbarthu. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

3. Penodi Ysgrifennydd newydd y Brifysgol

   Penodwyd Dr Gwawr Taylor yn Ysgrifennydd newydd y Brifysgol a byddai'n dechrau ym mis Ionawr. Roedd Kath Williams wedi cytuno i ymgymryd â'r swydd o ganol mis Ionawr dros gyfnod mamolaeth Gwawr. Diolchwyd i Jean Jones a Helen Davies am eu gwaith yn cynorthwyo gyda materion Llywodraethu ar ôl i Geraint Pugh adael.

4. Dull cynnal y Cyfarfod

   Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a

byddai'r eitemau dan sylw felly'n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad ar y flaenddalen.

**16. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**17. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021 (COU2122-029).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**18. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2122-030).

NODWYD

Nodwyd y diweddariadau yn y cofnodydd penderfyniadau, ac argymhellwyd cyflawni rhan fwyaf y camau gweithredu. *Cam Gweithredu 46.2.8* Strategaeth Ystadau, newid y dyddiad targed i fis Mawrth 2022. *Cam Gweithredu 10.2.3* Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, newid y dyddiad targed i'w gyflwyno yng nghylch nesaf y pwyllgorau llywodraethu. *Cam Gweithredu 10.1.6* Byddai sesiwn wybodaeth anffurfiol ynglŷn â Denu Myfyrwyr yn cael ei chynnal yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. *Cam Gweithredu 2.3.* Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi arsylwi ar gyfarfod y Senedd ar 17eg Tachwedd 2021 ac y bu hynny'n arbennig o fuddiol.

**PENDERFYNWYD**

Gwahodd Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, i arsylwi ar gyfarfod nesaf y Senedd. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**19. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-031).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar adeg ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle'r oedd yr aelodau wedi cymeradwyo'r canlynol trwy ohebiaeth.

   <u>USS – Ymateb i ymgynghoriad pellach – 2 Gorffennaf 2021</u>

Cytunodd yr Aelodau ar yr ymateb arfaethedig.

**20. GOHEBIAETH**

1. <u>Ymweliad Sefydliadol gan CCAUC</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-032).

   NODWYD

   Derbyniwyd yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Brifysgol ym mis Hydref 2021, yn rhoi nodyn CCAUC am yr ymweliad sefydliadol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021.

2. <u>Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021</u>

   DERBYNIWYD

   Llythyr oddi wrth David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC (COU2122-033).

   NODWYD

   Derbyniodd yr Is-Ganghellor lythyr, dyddiedig 9$^{fed}$ Hydref 2021, oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC yn llongyfarch y Brifysgol ar berfformio'n uwch na'r meincnod yn yr ACF a'r cyfraniad a wnaeth hyn i Gymru'n gyffredinol.

**21. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-034).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Cafodd y sefyllfa ariannol a amlinellir yn y cyfrifon rheoli am 2020/21 ei nodi. Roedd y sefyllfa weithredu derfynol wedi gwella yn nodi effaith negyddol costau COVID ac ad-daliadau llety. Yn 2021/22, roedd nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd wedi cynyddu ond nid cymaint ag y rhagwelwyd, a nodwyd diffyg yn y gyllideb. Roedd camau gweithredu'n mynd rhagddynt i fynd i'r afael â hyn. Ym mis Ionawr, byddai derbyn nifer fach pellach o fyfyrwyr yn cynorthwyo'r sefyllfa. Er hynny, yn gynnar yn y cylch ceisiadau roedd nifer y ceisiadau am 2022/23 ar lefel debyg i'r llynedd.

3. Nodwyd bod nifer y myfyrwyr yn y garfan TAR ychydig yn is. Y flwyddyn nesaf, byddai marchnata pellach yn cael ei dargedu at fyfyrwyr yr 2$^{il}$ a'r 3$^{edd}$ flwyddyn, a byddai angen gwaith ehangach i ganfod effaith y trefniadau cyllido i fyfyrwyr TAR yn Lloegr sydd ar hyn o bryd yn fwy hael.

4. Roedd sefyllfa barhaus COVID yn cael ei rheoli'n dda ac roedd mesurau lliniaru priodol yn eu lle. Hyd yma, ni fu unrhyw achosion o drosglwyddo ar y campws. Llongyfarchwyd y Brifysgol ar ei darpariaeth addysgu wyneb yn wyneb ar draws pob maes pwnc ac ar ei darpariaeth o gymorth lles.

5. Byddai'r Ysgol Filfeddygaeth yn cael ei hagor yn swyddogol ar 10fed Rhagfyr. Yn ddiweddar, cynhaliodd yr Is-Ganghellor ginio i William Parker a oedd yn rhoddwr sylweddol i'r Brifysgol i gefnogi'r Gronfa Cyfleoedd Ewropeaidd newydd. Llongyfarchwyd y Tîm Cyfathrebu ar eu gwaith rhagorol yn hyrwyddo'r cyhoeddiad yn ogystal â'u gwaith yn ystod y misoedd diwethaf. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu am seremonïau Graddio estynedig yn 2022, a'r bwriad yw cysylltu â charfanau blaenorol y myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig i ofyn iddynt fynegi diddordeb i fod yn bresennol. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn y Gwanwyn. Roedd gwaith ar ddigwyddiadau i ddathlu'r 150 pen-blwydd yn parhau. Llongyfarchodd yr Is-Ganghellor yr aelodau staff a enwebwyd mewn dau gategori yng Ngwobrau Addysg Uwch y Times yn ddiweddar, sef Ysgol Fusnes y Flwyddyn a Menter Cyfnewid/Trosglwyddo Gwybodaeth y Flwyddyn.

6. Roedd arolwg cynhwysfawr Llywodraeth San Steffan o wariant yn parhau gydag ymgynghoriad rhwng Adrannau'r Llywodraeth ar lefelau ffioedd myfyrwyr, lefelau ad-dalu a chyfraddau llog.

7. Ym mis Hydref, cynhaliodd yr UCU bleidlais ymhlith ei haelodau ar weithredu diwydiannol ynghylch cyflogau a phensiynau. Nid oedd y bleidlais yng nghangen Aberystwyth wedi cyrraedd y 50% gofynnol. Roedd yr UCU wedi rhoi gwybod i'r Brifysgol yn ddiweddar am ei bwriad i gynnal ail bleidlais ymhlith aelodau Aberystwyth gan fod y nifer a bleidleisiodd rhwng 40% a 50%. Gan nodi'r sefyllfa ariannol fel yr amlinellir uchod, nid oedd Prifysgol Aberystwyth mewn sefyllfa i gynnig cynnydd mewn cyflog heb i hynny gael effaith andwyol sylweddol ar fusnes y Brifysgol.

8. Trafodwyd y bartneriaeth ddiweddar rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn y Senedd gan dynnu sylw at gyfleoedd. Roedd hyn hefyd yn cefnogi hynt y Bil Addysg Trydyddol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar 23ain Tachwedd yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesi; byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd.

9. Croesawyd y datblygiadau yn hyfforddiant addysg Iechyd. Er bod Gofal Cymdeithasol yn faes pwysig, roedd y datblygiad yn dibynnu ar weithio gyda darparwr Addysg Bellach, ac roedd hyn yn anodd. Byddai ymdrechion yn parhau, gan nodi datblygiadau ehangach posibl rhwng y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Roedd cyfleoedd am brentisiaethau yn ystyriaeth barhaus.

10. Unwaith eto nododd yr Is-Ganghellor ei barn ynghylch cefnogi gweithgareddau ymchwil wrth symud ymlaen. Er bod y sefyllfa ariannol bresennol yn heriol, byddai unrhyw arian parod a ganfyddir yn ystod y flwyddyn yn cael ei roi at ddibenion ymchwil. Roedd y Brifysgol yn parhau â'i gwaith i resymoli'r cynlluniau gradd a'r modiwlau a gynigir, i'w wneud yn fwy deniadol i fyfyrwyr a hefyd i ryddhau amser staff.

**22. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2122-035).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf am weithgaredd iechyd a diogelwch, wedi'i seilio ar yr adroddiad llawnach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) ar 25 Chwefror 2021.

2. Roedd y Pwyllgor Ll&Ch wedi trafod ad-drefnu rhai o weithgareddau'r cynllun gweithredu, gan nodi eu bod yn ymwneud â gwelliannau ac nad oeddent yn cynyddu risg. Nododd y pwyllgor hefyd y materion ynghylch capasiti yn y tîm ac annog gosod dyddiadau targed realistig.

3. Roedd swyddogaeth rheoli llinell ID&A yn cael ei throsglwyddo o'r Adran Ystadau i Ysgrifennydd y Brifysgol, yn unol ag adrannau eraill tebyg yn y sector. Stephen Forster oedd yn rheoli'r tîm yn y cyfamser.

**23. ADRODDIAD GAN LYWYDD UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2122-036).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

**24. ADFYWIO STRATEGAETH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-037).

NODWYD

1. Cytunwyd ar y papur Adnewyddu'r Strategaeth yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ym mis Medi; roedd y blaenoriaethau wedi'u nodi bellach ac fe'u cyflwynwyd i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

2. Roedd dyddiau encil gweithredol yn cael eu trefnu er mwyn ystyried cynlluniau ehangach mwy uchelgeisiol wrth edrych ymlaen at 2030.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r blaenoriaethau ymhlith y camau gweithredu.

**25. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Adroddiad Chwarter 1 2021-22</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2122-038).

   NODWYD

   1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi rhagolygon alldro'r Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 1 2021-22. Cafodd y cyfarfodydd llywodraethu eu cynnal cyn i'r Pwyllgor Adnoddau a

Pherfformiad (A&Ph) ystyried yr adroddiad; cafwyd diweddariad ar lafar i'r adroddiad M2 a gyflwynwyd.

2. Ers cymeradwyo'r gyllideb am 2021-22, nodwyd rhai symudiadau ffafriol, yn enwedig yn gysylltiedig ag arian ychwanegol gan CCAUC, ond hefyd rhai symudiadau andwyol a ddaeth â risgiau i'r golwg yn gysylltiedig â'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr a ragwelwyd.

3. Roedd gwaith yn mynd rhagddo'n dda i ganfod y diffyg yn y gyllideb, y byddai adroddiad M4 yn rhoi rhagor o fanylion am feysydd lle gellid cynilo. Roedd sefyllfa'r llif arian yn dal i fod yn dda, ac yn dangos cydymffurfiaeth â'r cyfamod bancio. Tynnwyd sylw at y sefyllfa o ran hylifedd, gan nodi mai'r nod oedd cyrraedd targed CCAUC yn y 2 - 3 blynedd nesaf. Yn dilyn effaith COVID, roedd y sefyllfa'n gwella'n gynt na'r disgwyl.

**26. ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN**

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (yn cynnwys Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor ac Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol (COU2122-039).

1. Derbyniwyd adroddiad blynyddol cynhwysfawr yn crynhoi gwaith y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARS).

2. Cytunodd yr aelodau fod hwn yn adroddiad cynhwysfawr a lwyddodd i grynhoi'r wybodaeth berthnasol ynghylch rheoli cydymffurfiaeth a llywodraethu risg y Brifysgol.

3. Dywedodd Kate Eden fod y Pwyllgor ARS wedi ystyried yr adroddiad yn fanwl ac yn ei argymell i'w ystyried gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

4. Derbyn a nodi'r adroddiad.

2. Yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 (yn cynnwys y Cyfrifon Rheoli i gysoni Datganiadau Ariannol; Llythyr a Memorandwm Rheoli'r Archwilwyr Allanol; a'r Llythyr Cynrychiolaeth i'r Archwilwyr Allanol).

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2122-040).

1. Nododd yr Aelodau ffurf newydd yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn unol â chanllawiau CUC a CCAUC. Canmolwyd eglurder y ddogfen gan ei bod yn dangos yn glir berfformiad y Brifysgol yn ystod blwyddyn anodd iawn.

2. Cafwyd gwybod gan y Pwyllgor ARS ei fod wedi ystyried yr adroddiad yn fanwl, yn enwedig y meysydd archwilio sy'n ymwneud â 'busnes parhaus'. Roeddent wedi

trafod yr adroddiad archwilio allanol â KPMG ac roeddent yn fodlon â’u casgliadau. Roedd y Pwyllgor wedi croesawu pa mor hwylus fu’r broses o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Dywedasant fod yr Archwilwyr Allanol o’r farn mai hon oedd yr enghraifft orau o'r templed newydd a welwyd ganddynt. Diolchwyd i'r Tîm Cyfathrebu am eu gwaith yn llunio'r adroddiad.

3. Roedd disgwyl i'r archwilwyr ddarparu barn archwilio ddiamod, ac ailgyhoeddi'r llythyr rheoli.

4. Roedd y datganiadau ariannol yn gadarnhaol iawn ac yn adlewyrchiad da o’r sefydliad yn gyffredinol, ac yn nodi nifer o fentrau llwyddiannus mewn cyfnod heriol iawn.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r Adroddiad a'r cyfrifon blynyddol i'w cyflwyno i CCAUC.

3. ASSUR (Datganiad Blynyddol Cynaliadwyedd 2021)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2122-041)

NODWYD

1. Mae'n rhaid i'r Brifysgol gytuno ar yr Adroddiad Blynyddol o Sicrwydd Cynaliadwyedd i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido, ynghyd â'r Datganiadau Ariannol wedi'u harchwilio. Roedd yr adroddiad yn cadw at ffurf safonol datgeliad a awgrymir gan Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd Ariannol, ac yn darparu mecanwaith addas i roi prawf ar statws y sefydliad o fod yn 'fusnes parhaus'.

2. Roedd y dadansoddiad yn cynnwys cyfrifiad o 8.6% i’r Gor-swm Cynaliadwyedd a Buddsoddi (MSI) sy'n uwch nag isafswm y targed cynaliadwyedd yn y tymor hwy, sef 7%. Cafodd y gwelliant yn y metrig cynaliadwyedd ei groesawu ac roedd yn adlewyrchu sefyllfa well yn 2020-21 a'r gwargedau a ragwelwyd rhwng 2021-22 a 2023-24.

3. Roedd y Pwyllgor A&Ph wedi ystyried yr adroddiad yn fanwl ac yn fodlon â'r cyfrifiadau, ac wedi nodi perfformiad gwell yr MSI a oedd yn ôl i lefelau cyn COVID.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Sicrwydd Cynaliadwyedd.

4. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU2122-042).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno pwyntiau data cyfredol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.

2. Trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor A&Ph a nododd y gwelliant yn ein perfformiad wrth ennill grantiau ymchwil.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol yn dal i fod yn berthnasol; byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn eu hadolygu'n gyson ac yn cyflwyno unrhyw welliannau i'w hystyried gan y Cyngor.

5. <u>Datganiadau Sicrhau Ansawdd (gan gynnwys Siarter y Myfyrwyr; Cyflwyniad Blynyddol Undeb y Myfyrwyr a Datganiad Canlyniadau Gradd).</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (COU2122-043).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r dystiolaeth briodol i Gyngor y Brifysgol fel y gallai gadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni, a'i bod yn dal i gyflawni, ei rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau'n ymwneud â sicrhau ansawdd. Adroddai'r ddogfen ar weithgaredd yn 2020/21 yng nghyd-destun Covid-19. Roedd y Senedd wedi adolygu'r adroddiad yn fanwl yn y cyfarfod ar 17eg Tachwedd 2021.

2. Tynnwyd sylw at y matrics risg ar dudalennau 4-8: roedd Partneriaethau, Arholwyr Allanol a Phrosesau a Strwythur wedi'u tynnu i lawr un lefel, ond roedd y meysydd Anrhydedd Da (cynnydd cymedrol o 3% yng nghyd-destun chwyddiant graddau ), Adolygiadau Adrannol (a oedd newydd ailgychwyn ar ôl cael eu hatal am gyfnod oherwydd Covid), ac Apeliadau a Chwynion (a oedd wedi cynyddu mewn nifer a chymhlethdod), wedi'u codi lefel i ddangos lefel uwch o risg. Roedd Adroddiad Tair Blynedd CCAUC wedi awgrymu y dylai'r brifysgol edrych ar ei sylwebaeth ynghylch Llais y Myfyrwyr a chafodd hyn sylw o dan y pennawd Llais y Myfyrwyr. Rhoddai'r adran ar Bartneriaethau grynodeb o adroddiad blynyddol manylach a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Cyngor.

3. Amlinellwyd cynlluniau asesu ar gyfer Semester 1, ac roedd rhai cyrff proffesiynol yn mynnu bod angen ailddechrau cynnal arholiadau. Ond yn gyffredinol, y duedd oedd troi oddi wrth arholiadau a chynnal asesiadau yn cyd-daro'n agos â chanlyniadau dysgu.

4. Roedd y Brifysgol yn gyfforddus â'i safle ar anrhydeddau da, gan gydbwyso hyn yn erbyn gwelliannau yn safonau mynediad a gwneud cyrsiau'n ddeniadol i fyfyrwyr. Roedd gwaith yn parhau gydag Adrannau i adnewyddu eu cyrsiau a'u dulliau asesu. Roedd cymorth Saesneg ychwanegol yn cael ei roi i fyfyrwyr rhyngwladol.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo cyflwyno'r Datganiadau Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd i CCAUC ar sail yr holl sicrwydd a ddarparwyd yn yr adroddiad. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

6. Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rheolwr Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd (COU2122-044)

NODWYD

1. Ceisiai’r Adroddiad Blynyddol am 2020-21 roi sicrwydd i'r Cyngor fod y sefydliad yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yng nghyswllt Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Rhoddodd yr Adroddiad grynodeb o ddatblygiadau a heriau diweddaraf y Brifysgol, o ran trefniadau iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn y Brifysgol am flwyddyn academaidd 2020-21. Rhoddai amlinelliad o weithgareddau a threfniadau diweddar, megis y cyflawniadau o fewn i amserlenni datblygu polisi, cyfraniadau Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd at ymateb parhaus y Brifysgol i bandemig COVID-19, a data’r cyfnod ynglŷn â chofnodi digwyddiadau a hyfforddi.

7. Adroddiad Monitro'r Gymraeg

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol; Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg; a Swyddog Datblygu Gwasanaethau’r Gymraeg (COU2122-045).

NODWYD

1. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn gosod dyletswydd statudol ar y Brifysgol i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol o fewn chwe mis (30 Ionawr 2022) i ddiwedd y flwyddyn adrodd (1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2021).

2. Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol yn unol â gofynion y safonau [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Prifysgol].

8. Datganiad Blynyddol ar Berfformiad Rheoli Carbon

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cynghorydd Cynaliadwyedd (COU2122-046).

NODWYD

1. Yn 2019 gwnaed addewid ar y cyd gan y Tîm Gweithredol a Chyngor y Brifysgol i geisio bod yn garbon niwtral erbyn 2030. Roedd y papur yn crynhoi’r cynnydd diweddaraf ynghylch lleihau allyriadau $CO_2$ a'r camau sy’n cael eu hargymhell yn y tymor byr.

2. Mae'r ffigurau blynyddol diweddaraf yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud yn achos lleihau allyriadau $CO_2$ sy'n gysylltiedig ag ynni, ond yn nodi bod y rhain yn cyfrif am tua 20% o'r allyriadau. Roedd ymgynghori bellach ar droed er mwyn

cynorthwyo i ddatblygu syniadau a gweithredu pellach, a bydd Strategaeth yn cael ei datblygu yn y 12 mis nesaf, yn cynnwys cynllun gweithredu.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo cyhoeddi datganiad allyriadau blynyddol Llywodraeth Cymru a'r adroddiad cryno ar wefan PA. [**GWEITHREDU:** Swyddog Cynaliadwyedd].

9. Datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2122-047).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015), a Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, roedd y Brifysgol wedi paratoi Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Roedd y datganiad hefyd yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Brifysgol i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl.

10. Adroddiad Blynyddol rhaglen 'Prevent'

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2122-048).

NODWYD

1. O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch roi sylw priodol i'r angen i rwystro pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth. Cyfeirir at hyn fel y Ddyletswydd 'Prevent' neu'r ddyletswydd i rwystro.

2. I gydymffurfio â Fframwaith Monitro 'Prevent' y Cyngor Cyllido, rhaid i'r Cyngor gyflwyno Datganiad Dyletswydd Prevent wedi'i lofnodi gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu (y Cyngor), yn ogystal â Datganiad Blynyddol o Ddata Monitro'r Ddyletswydd Prevent. Mae'r adroddiad yn rhoi digon o wybodaeth i aelodau'r Corff Llywodraethu fel y gallant gyflwyno Datganiad Atebolrwydd Blynyddol y Ddyletswydd Prevent.

3. Rhoddai'r adroddiad grynodeb o ddatblygiadau diweddar yn y Brifysgol, a manylion trefniadau cyfredol yng nghyswllt Dyletswydd 'Prevent' yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21, ynghyd â chopïau o fersiynau diweddaraf Asesiad Risg a Chynllun Gweithredu'r Brifysgol ar gyfer y Ddyletswydd Prevent.

4. Parhaodd y Grŵp Prevent i arolygu cyfraddau cwblhau hyfforddiant ledled y Brifysgol. Siomedig fu cyfraddau cwblhau’r hyfforddiant, ac roedd y cyfraddau yn yr Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol yn uwch yn gyffredinol nag yn yr Adrannau Academaidd.

5. Roedd swydd Cydgysylltydd Prevent AU/AB Cymru Gyfan yn dal yn wag yn dilyn ymddeoliad deiliad blaenorol y swydd. Byddai'r Brifysgol yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i ailgyflwyno swydd Cydgysylltydd Prevent AU/AB i Gymru.

6. Dau fater pwysig yr hysbyswyd CCAUC amdanynt yw dedfrydu a charcharu cyn-fyfyriwr a graffiti yn ardal Aberystwyth.

**PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Dyletswydd 'Prevent' y Brifysgol am y flwyddyn academaidd 2020–21. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

11. <u>Datganiad Blynyddol Sicrwydd a Chynllun Ffioedd a Mynediad</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor a Phennaeth Datblygu Strategol (COU2122-049)

NODWYD

1. Yn rhan o drefniadau adrodd blynyddol, mae'r Cyngor Cyllido'n mynnu bod pob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn cyflwyno Datganiad Sicrwydd Blynyddol. Bob mis Tachwedd mae'r Cyngor Cyllido yn darparu'r templed i'w ddefnyddio, a rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor a chan yr Is-Ganghellor, sef y Swyddog Atebol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r datganiad i'w gyflwyno i CCAUC [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

12. <u>Datganiad Blynyddol Cyflogau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2122-050).

NODWYD

1. Yn 2017, hysbyswyd prifysgolion bod Llywodraeth Cymru’n disgwyl iddynt gyhoeddi Datganiadau Blynyddol Cyflogau, yn unol ag egwyddorion ac isafswm safonau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Rhagfyr 2015, yng nghyswllt cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Felly, mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi ei Datganiad Cyflog Blynyddol cyntaf.

2. Paratowyd Adroddiad Blynyddol y Polisi Cyflog am 2020–21 yng ngoleuni argymhellion Llywodraeth Cymru’n ymwneud â thryloywder taliadau uwch yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo Datganiad Blynyddol Cyflogau i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

13. Adroddiad Blynyddol ar y Pwyllgor Taliadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-051).

NODWYD

1. I gydymffurfio â 'Chod Taliadau Staff Uwch Addysg Uwch', cytunodd y Pwyllgor Taliadau ar adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y Cyngor, ac i roi sicrwydd i'r corff llywodraethu bod y Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Byddai crynodeb o'r adroddiad hefyd yn cael ei wneud yn gyhoeddus yn rhan o'r Datganiad Blynyddol ar Daliadau Staff Uwch.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol arfaethedig ar Daliadau Staff Uwch am 2020–21 i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

14. Adroddiad Blynyddol ar Ryddid i Lefaru.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2122-052).

NODWYD

1. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb cyfreithiol, o dan Adran 43 Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 i "gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn cael ei sicrhau i aelodau, myfyrwyr a gweithwyr y sefydliad ac i siaradwyr gwadd." Yn hyn o beth, mae'r Brifysgol yn mabwysiadu egwyddor rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant o fewn y gyfraith, ac mae'r trefniadau ar eu cyfer wedi'u cofnodi yn ei Chod Ymarfer ar Ryddid i Lefaru.
2. Mae Adroddiad Blynyddol Rhyddid i Lefaru 2020-21 yn crynhoi'r prif ddatblygiadau ym maes rhyddid i lefaru ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth yn gysylltiedig â Chod Ymarfer y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru, sut y cymhwysir y Cod ar gyfer ceisiadau i gynnal digwyddiadau hysbysadwy a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac effaith COVID-19 ar gynnal digwyddiadau yn y Brifysgol. Cynhwysir hefyd grynodeb o'r digwyddiadau a ystyriwyd yn hysbysadwy yng nghyfnod yr adroddiad, y meini prawf ar gyfer ystyried a yw digwyddiadau'n rhai hysbysadwy ac unrhyw gamau gweithredu neu liniaru.

**PENDERFYNWYD**

3. Derbyn Adroddiad Blynyddol Rhyddid i Lefaru 2020/21.

**27. YR HEN GOLEG**

1. <u>Sefyllfa ddiweddaraf prosiect yr Hen Goleg</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2122-053)

NODWYD

1. Roedd adroddiad Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y prosiect, gan roi sylw arbennig i'r canlynol: y sefyllfa o ran sicrhau caniatâd cynllunio i'r maes parcio a chytundeb prydles â'r eglwys, ystyriaethau Gwerth am Arian, trafodaethau ag Andrew Scott Cyf. am y gwaith sydd i'w wneud o dan brif gontract, y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, cyhoeddi cyllid Codi'r Gwastad ar gyfer yr Hen Goleg (Cam 2) a'r camau gweithredu arfaethedig, canlyniadau peidio â symud ymlaen a chamau gweithredu yn y dyfodol.

2. Cam 1 - Adroddwyd bod y cynnig wedi'i drafod yn fanwl yn y Pwyllgor A&Ph a bod cais wedi'i wneud i ddiweddaru'r Achos Busnes (gwnaed hyn ac fe'i cynhwyswyd yn y papur a gyflwynwyd i'r Cyngor). Roedd y Pwyllgor A&Ph wedi argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r prosiect gan nodi'r amod i gymeradwyo'r ymrwymiad cyflawn o £13.5m.

   Nodwyd bod yn rhaid cynyddu ymdrechion i godi arian. Mae trafodaethau â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) am gymorth ychwanegol i'r prosiect yn parhau. Rhoddwyd tystiolaeth bellach i Gyngor Sir Ceredigion (CCC) yn rhan o broses caniatâd adeilad rhestredig.

   Cafodd papur ar y bwriad i benodi Andrew Scott yn brif gontractwr ei adolygu trwy ohebiaeth gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARS). Gweithred Un Tendr oedd hwn i bob pwrpas. Roedd y Pwyllgor ARS yn fodlon â'r diwydrwydd dyladwy a wnaed ar y mater. Nid oedd Cadeirydd y Pwyllgor ARS yn gallu bod yn y cyfarfod, ond roedd wedi anfon neges at y Cadeirydd i nodi nad oedd unrhyw bryderon gan SAC i'w codi.

3. Cam 2 - Cynhaliwyd cyfarfodydd â CCC, sef y partner arweiniol ar gyfer y gronfa codi'r gwastad ac mae materion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol bellach wedi'u datrys. Disgwylir llythyr cynnig ffurfiol gan Lywodraeth San Steffan cyn y Nadolig yn nodi telerau ac amodau'r grant. Yn y cyfamser, cadarnhaodd perchnogion y Cambria eu bwriad i werthu'r adeilad ac mae penawdau'r telerau'n cael eu datblygu.

4. Trafodwyd strategaeth ymadael. Roedd telerau ac amodau Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gosod cyfyngiadau ar y Brifysgol am y blynyddoedd cyntaf, ond ar ôl hyn gellid rheoli 3 prif ran yr adeilad (Gwesty, Gofod Menter, a gofod oriel) ar wahân ac mae posibiliadau i ryddfreinio / prydlesu neu werthu busnes y gwesty (gan nodi materion TAW a rhoi ystyriaeth briodol i'r model busnes).

2. <u>Ystyriaethau Fforddiadwyedd Prosiect yr Hen Goleg</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2122-054).

NODWYD

1. Roedd Adroddiad Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn nodi ystyriaethau fforddiadwyedd y prosiect gan gynnwys argymhellion ar gyfer ariannu.

2. Roedd Cambridge Associates, sy'n rheoli portffolio buddsoddi'r Brifysgol, yn ymwybodol o'r angen posibl i waredu a byddai'r Brifysgol yn gweithio gyda hwy, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor i'r prosiect ar strategaeth waredu. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Buddsoddiadau. Gallai gwaredu asedau sefydlog gymryd ychydig yn hirach ond nodwyd y byddai hyn yn rhan o gynllun gweithredu'r Strategaeth Ystadau.

3. Ar hyn o bryd roedd yr Hen Goleg yn wynebu costau cynnal a chadw blynyddol parhaus. Yn ôl amcangyfrifon cyfredol, byddai cam un y prosiect yn symud cyfraniad blynyddol y Brifysgol i £150K, gan symud i warged flynyddol wrth ehangu busnes y gwesty o 31-59 ystafell wely yn rhan o'r prosiect Codi'r Gwastad. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfradd defnydd gymhedrol o 60%. Gofynnwyd i'r Is-Ganghellor sicrhau'r Cyngor y byddai'r cyfraddau hyn yn cael eu cyflawni. Dywedodd yr Is-Ganghellor, o ystyried yr amgylchiadau cyfredol, na allai roi'r gwarant hwnnw. Byddai manteision ychwanegol i'r Brifysgol yn cynnwys defnydd o'r lle a fwriadwyd i gyfleusterau cynadledda myfyrwyr a chyfleoedd marchnata gan gynnwys dyddiau agored a dyddiau ymweld.

4. Mynegodd y Cadeirydd farn bersonol yn nodi pwysigrwydd y prosiect i'r Brifysgol, y dref a'r rhanbarth. Bu PA yn rhan allweddol o'r sector Addysg Uwch yng Nghymru ers 1872 a chafodd ei sefydlu yn dilyn ymgyrch hir gan bobl Cymru. Byddai Hen Goleg wedi'i adfywio yn atyniad sylweddol i'r dref ac roedd yn rhan allweddol o adfywio lleol. Bu'n brosiect heriol a diolchwyd i reolwyr y prosiect am eu gwaith sylweddol. Roedd yr achos busnes wedi cael ei archwilio a'i adolygu'n ofalus ac roedd yn cael ei ystyried yn brosiect hyfyw. Roedd cyllid yn ei le, gyda chydnabyddiaeth gyflawn o gefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a darparwyr eraill. Nid oedd y prosiect heb ei risg, a nodwyd y diffyg ariannol presennol o £13.5m, yr oedd angen ei gydnabod yn llawn. Byddai ymdrech yn parhau i leihau lefel cyllid y Brifysgol. Rhaid i'r prosiect beidio â gwanhau sefyllfa gyffredinol y Brifysgol wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

5. Gan nodi argymhellion papur y Cyfarwyddwr Cyllid y Gwasanaeth Corfforaethol ynghylch Ystyriaethau Fforddiadwyedd, cymeradwyodd y Cyngor mewn penderfyniad unfrydol trwy godi dwylo, benodiad Andrew Scott Cyf. yn Brif Gontractwr ar brosiect yr Hen Goleg ac i geisio dechrau ar y safle cyn gynted â phosibl.

6. Mewn penderfyniad unfrydol trwy godi dwylo, cymeradwyo llofnodi'r cytundebau prydlesu gyda Chyngor Sir Ceredigion a chydag Eglwys Sant Mihangel.

7. Cadarnhau'r gymeradwyaeth (a nodwyd yn flaenorol yng nghyfarfod y Cyngor ar 19$^{eg}$ Mawrth 2021) i lofnodi'r brydles am y tir a elwid gynt yn gae Golff Bach, ar y

Prom Newydd, Aberystwyth.

8. Byddai'r Tîm Cyfathrebu yn ystyried hysbysebu'r penderfyniad hwn yn ehangach. [**GWEITHREDU:** Pennaeth y Swyddfa Gyfathrebu].

3. Y diweddaraf ar y Prosiect Codi'r Gwastad

1. Fel y nodwyd eisoes, nid oedd manylion telerau'r grant yn hysbys eto, a byddai manylion pellach yn cael eu rhoi i aelodau'r Cyngor pan fyddant ar gael. Byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno yn nodi posibilrwydd y gallai gwrthod y grant fod yn opsiwn. [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol & Rheolwr Prosiect].

**28. DIWYGIADAU I ORDINHAD 21**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol) a Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-055)

NODWYD

1. Roedd y papur yn nodi'r sail resymegol dros symud y Ganolfan Saesneg Ryngwladol o Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol i fod yn rhan o'r Adran Farchnata a Denu Myfyrwyr.

**PENDERFYNWYD**

2. Yn unol ag Ordinhad 21, i gymeradwyo symud y Ganolfan Saesneg Ryngwladol i'r Swyddfa Marchnata a Denu Myfyrwyr, gan nodi aelodaeth gyswllt o Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol i ddibenion sicrhau ansawdd.

**29. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill y Brifysgol (COU2122-056);

2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2122-057);

3. Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r Safonau Iaith Gymraeg (COU2122-058); a

4. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2122-059);

NODWYD

5. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**30. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2122-060):

1. Y Senedd (22 Medi 2021);

2. Pwyllgor Buddsoddiadau (05 Tachwedd 2021);

3. Pwyllgor Taliadau (05 Tachwedd 2021);

4. Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (15 Tachwedd 2021); a

5. Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (15 Hydref 2021).

NODWYD

6. Diolchwyd i Jean Jones am ei gwaith yn paratoi'r adroddiad. Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau am argymhelliad i roi bonws ar wahân i'r Is-Ganghellor i gydnabod y gwaith a wnaed wrth symud y Brifysgol yn ei blaen yn ystod blwyddyn anodd iawn. Diolchodd yr Is-Ganghellor i'r Cyngor a'r Pwyllgor Taliadau am eu sylwadau ond nododd na fyddai'n briodol iddi dderbyn y bonws.

7. Cafodd yr adroddiadau eu nodi.

**PENDERFYNWYD**

8. Ychwanegu nodyn at ffeil bersonol yr Is-Ganghellor i gydnabod argymhelliad y Pwyllgor Taliadau a nodi na dderbyniwyd y dyfarniad. **[GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol].

**31. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

**1.** Mae'r ffeil pdf sy'n cynnwys holl bapurau'r Cyngor yn cynnwys nodau tudalen fel y gall yr aelodau fynd trwy'r papurau'n haws. **[GWEITHREDU:** Cynorthwy-ydd Gweinyddol Llywodraethu]

Jean A Jones

3/12/2021